# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Hydref 2011





## Eisteddfod y Wladfa

Cynhaliwyd uchafbwynt y calendr eisteddfodol yn Nhrelew yn ystod penwythnos olaf mis Hydref, sef Eisteddfod y Wladfa 2011. Fel bob blwyddyn arall, denodd yr ŵyl gystadleuwyr a chefnogwyr o'r Wladfa ei hun, rhannau eraill o'r Ariannin, a thu hwnt.

Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf ym Mhatagonia ar ddydd Nadolig 1865 yng Nghaer Antur (Trerawson), ychydig fisoedd ar ôl i'r gwladfawyr cyntaf gyrraedd. Nid oedd yr eisteddfod yn cael ei chynnal erbyn canol yr 20g, ond ailddechreuodd yn rhan o ddathliadau canmlwyddiant y Wladfa yn 1965, ac mae hi wedi mynd o nerth i nerth fyth ers hynny.

Eleni, wedi bore prysur o ragbrofion, heidiodd dros 800 o eisteddfodwyr brwd i Glwb Racing Trelew ar gyfer noson gynta'r cystadlu. Am chwech o'r gloch ddydd Gwener yr 28ain o Hydref, agorwyd Eisteddfod y Wladfa 2011 mewn gair o weddi gan y Parch. Glyn Jones yn Gymraeg ac Estela Williams yn Sbaeneg, a chanwyd anthem yr Ariannin. Yn dilyn munud o dawelwch, diddanwyd y dorf gan ddawns Archentaidd cyn anrhydeddu Eulalia Lewis, yn enedigol o Fryn Gwyn, am ei chyfraniad i fywyd diwylliannol y Wladfa.

Gabriela Restucha a Diana Owen arweiniodd y noson, a chafwyd cystadlu lliwgar ac o Safonol uchel ar y llwyfan. Doedd tasg y beirniaid ddim yn un hawdd - Diego Boero (canu Sbaeneg), Sioned Webb (canu Cymraeg), Nelcis Jones (adrodd Sbaeneg), Ann Siriol Davies ac Eirian Wyn Lewis (adrodd Cymraeg), Valeria Lewis ac Isaías Grandis (dawns werin Gymreig), Nadin Sorias a Juliana Zicchieri Crotta (dawns werin Archentaidd).



Aeth cystadlaethau'r noson gyntaf rhagddynt yn rhwydd a threfnus, ac yn eu plith seremoni'r Fedal. Daeth 38 o gerddi Sbaeneg i ddwylo'r beirniaid, Luciana Andrea Mellado a Silvia Estela Casini, ond 'La Llave' gan Jorge Alberto Baudés o Playa Unión ddaeth i'r brig. Virgina Steinkampf a Matías Ayala oedd y tywyswyr, a chyflwynodd Graciela Colosante, Llywydd Cymdeithas Dewi Sant, y fedal i'r bardd buddugol cyn i Santiago Palacios Zampini ganu unawd.

Atseiniodd anthem Cymru drwy'r neuadd toc cyn hanner nos i gloi'r diwrnod cyntaf.

Erbyn dau o'r gloch brynhawn Sadwrn roedd bwrlwm yng Nghlwb Racing unwaith eto, a Glenda Thomas a'r Parch. Carlos Ruiz yn agor mewn gweddi. Ar ôl canu'r anthem Archentaidd, cafodd yr Athro Robert Owen Jones ei anrhydeddu am ei waith gyda'r Cynllun Dysgu Cymraeg a ddechreuwyd yn y Wladfa yn 1997. Juan Davies a Rebeca White oedd yr arweinwyr, ac amrywiaeth o gystadlaethau'n ymddangos ar y llwyfan eto. Cyhoeddid enillwyr y cystadlaethau celf, cyfieithu, a llenyddiaeth drwy gydol y dydd.

(Darllenwch ragor am Eisteddfod y Wladfa 2011 ar dudalen 2)

Lois Dafydd

Daeth aelodau o Orsedd y Wladfa a Gorsedd Cymru i'r llwyfan ganol y prynhawn, wrth i Esyllt Roberts arwain y prif seremoni Gymraeg, sef Cadair yr Eisteddfod.



Roedd y gystadleuaeth yn gofyn am gerdd neu gyfres o gerddi ar y testun 'Drws Dychymyg', a derbyniwyd deg ymgais. Archdderwydd Gorsedd Cymru, T. James Jones oedd y beirniaid, ac roedd yn bresennol i draddodi'r feirniadaeth ac i ddatgan bod yna deilyngdod. Ar ganiad yr utgorn safodd y bardd buddugol ar ei draed, sef Geraint Edmunds o Drelew. Atgof plentyn am ei daid yw'r gerdd yn y mesur rhydd, a hon oedd y bedwaredd gadair eisteddfodol iddo´i hennill. Norwena Hughes oedd Merch y Blodau, a Billy Hughes yr unawdydd yn arwain y dorf i ganu 'Cân y Cadeirio'. Cyfarchodd Mary Green y bardd buddugol, cyn y ddawns flodau gan ferched o Ysgol yr Hendre, wedi'u hyfforddi gan Graciela Colosante a Judith Jones.

Yn dilyn egwyl fer, dychwelodd Gabriel Restucha a Diana Owen i'r llwyfan i arwain rhan olaf yr eisteddfod a derbyniodd José María anrhydedd ar ran ei dad, José María Sáez, sef sylfaenydd papur newydd ´El Chubut´. Mwynhaodd y dorf niferus a'r beirniaid wledd o adloniant unwaith yn rhagor, gan gynnwys unawdau, corau a phartïon, dawnsfeydd, caneuon actol, adrodd, ac unawdau offerynnol. Ond uchafbwynt cystadlu'r noson oedd y Coroni.



Cyfansoddi cerdd Sbaeneg oedd yr her a wynebai'r ymgeiswyr, a'r beirniad yn datgan mai'r enillydd eleni am ei cherdd ´Con los pies en el suelo ancestro´ oedd Arie Lloyd de Lewis. Mae´r gerdd yn fynegiant o´i theimladau a´i hymateb pan gyrhaeddodd hi Gymru, gwlad ei chyndeidiau am y tro cyntaf, a chyfeiriodd y beirniaid at rhythm a sain arbennig y geiriau. Cludodd Daiana Handley y goron i´r llwyfan, a pherfformiwyd dawns draddodiadol Archentaidd wrth i´r grŵp ´Otro Cielo´ ganu.

Aeth y cystadlu a'r mwynhad yn eu blaen tan oriau mân y bore, ac ar ôl cyhoeddi canlyniadau olaf y dydd arweiniodd Sioned Webb y gynulleidfa i ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' i gyfeiliant Hector Ariel gan gloi deuddydd rhagorol o gystadlu ac o ddathlu diwylliant y Wladfa.



Mae'r holl ganlyniadau ar wefan yr eisteddfod – www.eisteddfod.org.ar – a lluniau di-ri ar wefan Vistas del Valle – www.vistasdelvalle.org.ar

Mae rhestr testunau Eisteddfod y Wladfa 2012 ar gael nawr!

# Gorsedd y Wladfa yn Dathlu'r Deg

Eleni mae Gorsedd y Wladfa yn dathlu deng mlynedd ers ei hailsefydlu.

Yn 1881 dychwelodd y bardd Gutyn Ebrill (Griffith Griffiths) o Gymru gyda bendith yr Orsedd yno i sefydlu Gorsedd y Wladfa yn swyddogol. Yn ddiweddarach, cymerodd Glan Caeron (W.H. Hughes) a Prysor (William Williams) yr awenau, ond dirywiodd pethau pan fu farw Prysor yn 1945. Fe'i hailsefydlwyd yn 2001 dan arweiniad Clydwyn ab Aeron Jones, Llywydd Anrhydeddus, a Dewi Mefin Rhymni (Dewi Mefin Jones) yn Llywydd. Cynhaliwyd seremoni liwgar gan yr Archdderwydd Meirion ym Meini'r Orsedd, a nifer o aelodau Gorsedd Beirdd Ynys Prydain ac aelodau newydd Gorsedd y Wladfa yn bresennol. Geraint ab Iorwerth (Geraint Edmunds) yw'r Llywydd ar hyn o bryd, ac Ivonne Maes Llaned (Ivonne Owen) yw'r Llywydd dros dro. Diben Gorsedd y Wladfa yw cefnogi'r Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau.



Cynhaliwyd y seremoni eleni ar fore Iau y 27ain o Hydref, a Chylch Meini'r Orsedd ar ei newydd wedd ar ôl derbyn grant gan y llywodraeth i osod llwybrau a phlanhigion yno. Dilynodd yr orymdaith y 'Gauchos Cymreig' - Andrés Evans, Richard James (Ricardo Iranni), a Guillermo Evans - o Gapel Bethel yng ngwres tanbaid yr haul, a'r aelodau newydd yn dilyn. Canodd Wiliam Gwyndy (Billy Hughes) 'Weddi'r Orsedd' a Chôr Merched yr Ysgol Gerdd 'Y Wladfa' dan arweiniad Edith Bryn Alaw (Edith Macdonald) a Mac Patagonia (Hector Ariel) yn cyfeilio. Cafodd deuddeg gael eu derbyn i'r Orsedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Albina Jones de Zampini | *Albina Bryn Heulog* | Erie James | *Erie Bryn Amlwg* |
| Graciela Colosante | *Graciela Bryn Bela* | Nia Griffiths | *Nia'r Ddôl* |
| Adriana Roberts | *Adriana Maen Gwyn* | Lois Dafydd | *Lois Tŷ Glas* |
| Romia Herrera | *Romina Blodyn y Paith* | Eirian Lewis | *Eirian Cleddau* |
| Vilma Nancy Jones | *Nansi Caer Antur* | Judith Jones | *Judith Alaw Camwy* |
| Ana Chiabrando | *Ana Plas y Coed* | Iwan Madog | *Iwan Hebog* |

Roedd chwech aelod o Orsedd Cymru hefyd yn bresennol yn y seremoni, gan gynnwys yr Archdderwydd Jim Parc Nest (T. James Jones). Perfformiodd disgyblion Ysgol Gerdd y Gaiman ddawns werin rhwng y meini, a chyhoeddwyd Eisteddfod y Wladfa 2012 cyn i bawb oedd yn bresennol ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Gorymdeithiodd pawb yn ôl i adeilad newydd Capel Bethel lle cynhaliwyd cyfarfod arbennig i ddathlu deng mlwyddiant Gorsedd y Wladfa, cyn i fyfyrwyr Coleg Camwy weini te yn yr Hen Gapel.

Pen Blwydd Llawen a Llongyfarchiadau i'r Orsedd!





# Holi Erie James...

1. **Ble cawsoch chi eich geni?** *Bryn Gwyn.*
2. **Beth yw eich atgof cynharaf?**
   *Ces i ddamwain pan oeddwn i'n dair oed. Daeth Dad â llond trol o wair oedd heb ei glymu'n iawn a dweud wrtha i am beidio â'i gyffwrdd. Ond llithrodd y llwyth a phasiodd yr olwyn dros fy mraich, a'i thorri. Bwriodd yr olwyn arall fy mhen a rhwygo'r croen ar agor. Cariodd Dad fi i'r tŷ a galw'r doctor. Roedd rhaid dal fy mreichiau'n dynn wrth i'r doctor roi 14 pwyth yn fy mhen heb anastetig!*

**3. Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?** *Adre.*

**4. Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?** *Garddio, gwnïo, hel achau, tynnu lluniau.*

**5. Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?** *Dim byd yn arbennig. Ond buaswn i ddim yn hoffi lladd mochyn!*

**6. Beth oedd eich swydd?**
*Fues i'n gwnïo i ddechrau, cyn astudio yn yr Ysbyty Brydeinig yn Buenos Aires am dair blynedd a chael gwaith yno. Roeddwn i hefyd yn nyrs breswyl mewn ysgol i fechgyn - i ryw 200 o fechgyn drwg!*

**7. Sut deimlad oedd hi i gael eich derbyn i Orsedd y Wladfa?**
*Ges i ddychryn! Dwi erioed wedi bod mewn rhywbeth pwysig fel'na o'r blaen.*

**8. Beth yw arwyddocâd eich enw barddol, Erie Bryn Amlwg?**
*Enw ffarm gynta'r teulu yn y Wladfa. Ffarm fy hen hen daid, Tomos Williams.*

**9. Ydych chi wedi cystadlu mewn eisteddfodau?**
*Fues i'n canu mewn corau pan oeddwn i'n iau - dim byd unigol. A dwi wedi cystadlu mewn cystadlaethau llenyddol mewn eisteddfodau yng Nghymru.*

**12. Beth yw eich hoff/gas fwyd?** *Unrhyw beth blasus! Ond dwi ddim yn hoffi iau.*

**13. Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Fan hyn yn y Gaiman - gartref.*

# Cymanfa Ganu Eisteddfod y Wladfa




Roedd Capel Bethel y Gaiman yn orlawn fore Sul y 30ain o Hydref ar gyfer y Gymanfa Ganu flynyddol. Ar ôl i Gladys Thomas agor y gwasanaeth mewn gair o weddi, gwahoddwyd Criw Trevelin i gydadrodd Salm 146 cyn i Gôr yr Urdd a Chôr Ieuenctid Ysgol Gerdd y Gaiman gydganu cân o fawl yn Sbaeneg a Chymraeg.

Sioned Webb oedd yn arwain y canu. Darparodd wybodaeth ddiddorol am bob emyn cyn i'r gynulleidfa doreithiog lenwi'r capel a'r awyr o'i amgylch gyda chanu angerddol a soniarus i gyfeiliant Ceris Gruffudd ar yr organ a Hector Ariel ar y piano. Ond distawodd pawb wrth i Caren Jones roi perfformiad teimladwy o'r emyn 'Rho im yr hedd', a enillodd gystadleuaeth canu emyn yn yr eisteddfod.

Darllenodd yr Esgob Edwin Regan (Cymraeg) ac Arie Lloyd de Lewis (Sbaeneg) Salm 93, a rhannodd yr Athro Robert Owen Jones neges o Salm 95, gan annog pawb i fod â chân yn eu calon i foli Duw. Canodd Ana Borzone y soddgrwth wrth i ieuenctid yr ardal gasglu'r offrwm, cyn i Lois Dafydd arwain mewn gair o weddi.

Er bod nifer ar eu traed tan oriau mân y bore ar ôl yr eisteddfod parhaodd y gynulleidfa niferus i ganu'n nerthol, gan floeddio canu Cwm Rhondda wrth adael y capel. Roedd cyfle i sgwrsio â ffrindiau hen a newydd yng ngwres braf yr haul cyn troi am adref.

# ‘Juan y Gwanaco a cherddi eraill’




Cafodd cyfrol newydd o farddoniaeth ei lansio yn ddiweddar. Mae ‘Juan y Gwanaco a cherddi eraill’ yn cynnwys dros hanner cant o gerddi sydd wedi eu hanelu yn bennaf at ddarllenwyr ifanc y Wladfa (ac ambell un ifanc ei natur!) yn ogystal â darllenwyr yn yr Hen Wlad.

Gorsedd y Wladfa sydd wedi’i chyhoeddi, gan fod galw wedi bod am gyfrol o’r fath er amser i ddisychedu’r angen am ddarnau adrodd yn ein heisteddfodau ac ar gyfer eu hastudio mewn gwersi Cymraeg.

Cafodd ei lansio gan Esyllt Roberts, golygydd y gyfrol, mewn cyfarfod arbennig yng Nghapel Bethel y Gaiman oedd yn dathlu deng mlwyddiant Gorsedd y Wladfa. Canodd Côr yr Urdd cyn i Ana Lyn Hughes, Gonzalo Lizama, Marcela Mellado, a Mary Green ddarllen rhai o’r cerddi i roi blas i’r gynulleidfa o’i chynnwys.

Yn ogystal â Juan y Gwanaco, cewch hefyd gyfarfod y pengwyn a’r piwma, y dulog a’r deinosor a theithio i weld olwynion Dolavon, i fwynhau dathliadau Gŵyl y Glaniad, i groesi’r paith i Droed yr Orsedd a llawer iawn mwy. Rhwng cloriau’r gyfrol hon mae cerddi doniol a cherddi dwys, rhai gyda’r geiriau’n ein deffro ac eraill yn ein swyno ac fe’u hysgrifennwyd yn bennaf ar gyfer cynulleidfa ac adroddwyr hyd at 25 mlwydd oed, sef oedran Eisteddfod yr Ifanc a gynhelir yn flynyddol yn Nyffryn Camwy. Ceir cyfraniadau gan feirdd o’r Wladfa, megis Gweneira Davies de Quevedo, Gwenni Evans ac Ana Chiabrando, yn ogystal â beirdd o Gymru sy’n gyfarwydd â Phatagonia a’i phobl.

Dyma gasgliad o farddoniaeth addas i ddysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg eu darllen a’u hadrodd - a’u mwynhau!

Esyllt Roberts

# Sgwrs Lenyddol

Cafwyd sgwrs ddifyr yng nghwmni’r Archdderwydd a’r Prifardd T. James Jones (Jim Parc Nest) a’r llenores Manon Rhys fore Sadwrn Eisteddfod y Wladfa.



Ar ôl sôn ychydig am sut y dechreuon nhw ysgrifennu’n greadigol, darllenodd y ddau ddarnau o’u gwaith i’r sawl oedd wedi dod i Breuddwyd, Gaiman. Esboniodd Jim Parc Nest rywfaint ar grefft y gynghanedd - dull arbennig o farddoni yn y Gymraeg sy’n ymwneud â sain ac odl geiriau - cyn darllen cerdd o’i gyfrol *Nawr*. Dewisodd Manon Rhys ddarllen pytiau o’i nofel *Neb Ond Ni*. Enillodd y nofel hon gystadleuaeth Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni, a chafwyd cyfle i weld y fedal aur honno yn ystod y sgwrs!

Yn ogystal â darllen eu gwaith, roedd ganddyn nhw gyngor i’r sawl sydd â diddordeb mewn ysgrifennu creadigol. Rhoddodd y ddau bwyslais mawr ar ddwy thema yn arbennig, sef ‘adnabod’ a ‘cofio’, ac ar gario llyfryn bach i bob man er mwyn nodi syniadau neu frawddegau a allai ddatblygu’n ddarnau creadigol. Daeth y sgwrs i ben mewn sesiwn holi ac ateb, a oedd yn gyfle gwerthfawr i unrhyw un sy’n ymddiddori mewn llenyddiaeth.

Diolch yn fawr i’r ddau am eu hamser, eu cyngor, a’u cwmni.

# Diwrnod Trelew 1886 - 2011




Ddydd Iau yr 20fed o Hydref, ar ddiwrnod heulog, heb wynt yn chwythu, a'r awyr las fendigedig yn ei lle, roedd strydoedd Trelew yn orlawn o hanes, diwylliant a bwrlwm. Daeth ysgolion yr ardal ynghyd er mwyn dathlu pen-blwydd y dref yn 125 oed.

Sefydlwyd Trelew yn 1886, pan gludodd llong y *Vesta* griw i Batagonia er mwyn adeiladu rheilffordd o'r dyffryn i Borth Madryn. Ar achlysur agor yr orsaf drenau yno'r flwyddyn ganlynol, rhoddwyd yr enw Trelew ar y pentref oedd wedi datblygu o amgylch y gwaith, a hynny i anrhydeddu Lewis Jones. Datblygodd y dref dros y blynyddoedd, ac erbyn heddiw mae rhyw 100,000 o bobl yn byw yn Nhrelew. Ond gyda'r rheilffordd bellach wedi'i chau, mae'r orsaf drenau yn amgueddfa heddiw.

Ar ddiwrnod dathlu pen-blwydd Trelew eleni, cafwyd gorymdaith fawreddog yn tystio i gryn weithgarwch dros yr wythnosau blaenorol. Ac wrth gwrs, roedd plant Ysgol yr Hednre yng nghanol bwrlwm a hwyl y diwrnod. Roedd pob un ohonynt yn ddigon o sioe wrth action hanes y Cymry a'r Tehuelche, a hyn yn oed ambell riant yn eu plith! Roedd hi'n bleser cael bod yn rhan o'r diwrnod.

Pen-blwydd Hapus, Trelew!

Nia Griffith

# Cyngherddau Camwy

Cynhaliwyd dau gyngerdd yn Nyffryn Camwy yn ystod wythnos Eisteddfod y Wladfa, y naill yn Nolavon a'r llall yn Nhrelew.



Brynhawn Mercher y 26ain o Hydref, cynullodd rhai o drigolion Dolavon a Thir Halen yng Nghapel Carmel i wrando ar unawdwyr a chôr yr Urdd, a rhai o blant Ysgol yr Hendre yn canu detholiad o ganeuon. Ar ôl i bawb gydganu 'Calon Lân', roedd cyfle am sgwrs dros ddiod a theisen - neu ddwy!

Ar y nos Iau cafodd pobl leol ac ymwelwyr gyfle i fwynhau noson o gerddoriaeth yn Amgueddfa Deinosoriaid Trelew (MEF). Roedd yr ystafell yn orlawn wrth i Santiago Meza a Lois Dafydd arwain, a phlant Ysgol yr Hendre yn ei agor gyda phedair cân dan arweiniad Catrin Morris. Roedd y gynulleidfa wrth ei bodd, ac amryw yn ymuno â'r plant i ganu'r gân olaf, 'Sosban Fach'!

Arfon Gwilym o Gymru oedd nesaf ar y llwyfan, a chanodd alawon gwerin Cymraeg i gyfeiliant ei wraig, Sioned Webb ar y delyn. Yna canodd unawdwyr o griw yr Urdd yn eu tro - Siân Miriam, Bethany Celyn, a Catrin Lewis. Ymunodd gweddill pobl ifanc yr Urdd â nhw i ffurfio côr, cyn i Arfon Gwilym a Sioned Webb ddychwelyd i'r llwyfan i ganu rhagor o alawon gwerin a chloi'r noson o adloniant.




Cafwyd amser braf a llawn mwynhad yn y ddau gyngerdd, a oedd yn rhagflas o'r hyn oedd i'w ddisgwyl ar lwyfan Eisteddfod y Wladfa.

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

**Dyddiau'r wythnos / *Los días de la semana***

| | |
|---|---|
| Pa ddiwrnod ydy hi heddiw? | *Cual día es hoy?* |
| Mae hi'n ddydd... | *Es...* |
| Llun | *lunes* |
| Mawrth | *martes* |
| Mercher | *miércoles* |
| Iau | *jueves* |
| Gwener | *viernes* |
| Sadwrn | *sábado* |
| Sul | *domingo* |
| Pa ddiwrnod oedd hi ddoe? | *Que día era ayer?* |
| Roedd hi'n ddydd... | *Era...* |
| Pa ddiwrnod fydd hi yfory? | *Que día será manana?* |
| Bydd hi'n ddydd... | *Será...* |



## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


**PLAS HEDD**
Complejo Turístico
**Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.**
(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

***Plas-y-Coed***
**Tŷ Te hynaf Gaiman.**

**Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.**
**Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.**

**TeithiauTango**
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED
www.teithiautango.co.uk
**Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.**

**Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew**
**camposur**
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

***Gwalia Lân***
**Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.**

**Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.**



# Cacen Gaws Lemwn

## - pwdin blasus a lliwgar i'r gwanwyn

Cynhwysion y gwaelod: 120g bisgedi (e.e. 'Manon')
60g menyn (wedi toddi)

Cynhwysion y llenwad: 75g siwgr
360g caws hufennog
2 felynwy
2 lemwn (sudd a'r croen wedi'i ratio)
0.5g powdwr *gelatine*
140ml hufen dwbl

Malwch y bisgedi'n fân a'u cymysgu'n dda gyda'r menyn wedi toddi. Rhowch mewn tin teisen y byddech chi´n ei defnyddio ar gyfer tarten, gyda gwaelod rhydd, gan wasgu'r gymysgedd i lawr yn dynn. Rhowch y tin yn yr oergell.

Cymysgwch y caws a'r siwgr yn dda, nes eu bod yn llyfn - mae hyn yn haws gyda phrosesydd bwyd.

Toddwch y powdr *gelatine*, yna'i gymysgu'n dda gyda'r melynwy a'r sudd lemwn.

Chwipiwch yr hufen yn ysgafn a'i blygu i mewn i'r gymysgedd. Yna arllwyswch y gymysgedd ar y gwaelod bisgedi sydd yn yr oergell.

Rhowch y gacen gaws yn yr oergell am tua 3 awr nes ei bod yn gadarn.

Rhowch fefus neu fafon ar y gacen gaws a'i bwyta gyda hufen, os dymunwch!

# Sadwrn Siarad Trelew

Ysgol yr Hendre oedd lleoliad Sadwrn Siarad Trelew, ac ymunodd rhyw ugain o bobl mewn gwahanol gemau er mwyn siarad ac ymarfer y Gymraeg. A'r cyfan dros sawl rownd o 'fate', wrth gwrs!

Er gwaetha'r tywydd diflas y tu allan, cafwyd amser braf y tu fewn. Y man cyntaf amlwg oedd i bawb gyflwyno'u hunain a'u gilydd, a hynny trwy daflu pêl mewn cylch – tasg anodd os oeddech chi'n digwydd dal mate neu fflasg o ddŵr cynnes ar y pryd!



Defnyddiwyd y bêl eto wrth i bawb rannu'n grwpiau a chreu cadwyn o eiriau yn ôl eu llythrennau cyntaf ac olaf: rhedeg – glaw – wal – lemwn...

Ac i orffen, dod o hyd i gymaint o eiriau â phosib o ddeg llythyren a osodwyd ar y bwrdd gwyn. Tybed faint o eiriau y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw?!


M A O R L E TH W I C

# Cywiriad

Dyddiad cau'r gystadleuaeth i Wladfawyr yn Eisteddfod Genedlaethol 2012 ydy'r 1af o <u>Ebrill</u> - NID y 1af o Fai.

Y testun yw 'Achlysur i'w gofio' (heb fod yn llai na 1,500 o eiriau) ar ffurf traethawd, cyfres o negeseuon e-bost, neu flog.

# Croesair Cymru



**AR DRAWS**

1. CAPTEN CYMRU YNG NGHWPAN RYGBI'R BYD 2011: SAM ______ (9)
3. YR IAITH (7)
4. BLODYN CENEDLAETHOL CYMRU (6,4)
7. YNYS FWYAF Y WLAD (4, 3)
8. NAWDDSANT CYMRU (4, 4)
9. MUDIAD IEUENCTID: _______ GOBAITH CYMRU (3)
10. RHEOLWR Y TÎM PÊL-DROED (4, 5)
12. Y MYNYDD UCHAF (2, 5)
14, 13 I LAWR, AC 15 I LAWR. YR ANTHEM (3; 4, 3; 6)
16. MAE'R LLYFRGELL GENEDLAETHOL YMA (10)
17. Y SIANEL RADIO (5, 5)

**I LAWR**

1. ROEDD EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2011 YMA (7)
2. TYWYSOG CYMRU YN 1400 (5, 7)
4. Y BRIF DDINAS (7)
5. BRENIN OLAF CYMRU: ___________ EIN LLYW OLAF (7)
6. PA ANIFAIL SYDD AR Y FANER? (5)
11. Y SIANEL GYMRAEG (1, 6, 1)
12. YR AFON SY'N LLIFO DRWY'R BRIFDDINAS (1, 3)
13, 15. GWELER 14 AR DRAWS (6, 6)

**Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!**

## Geirfa'r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| tu hwnt | *más allá* | caws hufennog | *queso crema* |
| buddugol | *ganador* | melynwy | *yema de huevo* |
| anrhydeddu | *honor* | malu (malwch) | *moler* |
| cyfraniad | *contribución* | prosesydd bwyd | *procesar la comida* |
| tywyswyr | *guías* | chwipio | *batir* |
| beirniadaeth | *veredicto* | plygu | *envolver* |
| teilyngdod | *mérito* | cywiriad | *corrección* |
| ailsefydlu | *reestablecer* | nawddsant | *santo patrón* |
| cymryd yr awenau | *tomar la iniciativa* | llithro | *caer* |
| pwyth | *puntada* | toreithiog | *muy abundante* |
| teimladwy | *conmovedor* | disychedu´r angen | *cubrir la necesidad* |
| clawr (cloriau) | *tapa(s)* | rhagflas | *anticipo* |

# Cornel y Plant

Llongyfarchiadau mawr i
**Mercedes Meza White**
ar ennill y wobr am liwio Sam Tân!

Diolch i bawb am gystadlu.

## Lliwiwch Nodi!

Anfonwch y llun wedi'i liwio gyda'ch enw at Lois Dafydd erbyn 24 Tachwedd am gyfle i ennill gwobr.



## Chwilair Cymeriadau

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| g | s | a | l | i | m | a | l | i | r | w | f | c |
| h | m | ll | r | t | s | b | n | e | th | j | e | a |
| j | o | d | f | ch | r | l | dd | g | f | a | n | b |
| r | t | o | m | o | s | y | t | a | n | c | l | f |
| u | n | h | y | r | a | s | h | rh | p | y | e | g |
| m | r | e | b | ll | m | i | ff | i | c | j | d | c |
| g | ff | s | r | c | t | d | i | f | n | w | g | d |
| c | y | w | l | p | a | ch | b | s | p | c | f | l |
| s | th | d | g | h | n | o | d | i | ng | j | p | i |

Sali Mali
Nodi
Sam Tân
Smot
Miffi
Jac y Jwc
Cyw
Tomos y Tanc

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198